OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2443 (Cy.215)

# GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Medi 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *16 Medi 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 203(9) a (10) a pharagraff 9(1) o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008 a daw i rym ar 16 Medi 2008.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall;

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 16 Medi 2008.

**Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau**

**2.** Ar y dyddiad trosglwyddo trosglwyddir yr eiddo o'r enw Ysbyty Abergele (Rhif Cofrestrfa'r Tir CYM 324611) a phob hawl a rhwymedigaeth sydd ynghlwm wrth yr eiddo hwnnw o Weinidogion Cymru i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru.(**2**).

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

15 Medi 2008

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2008/ 1648 (Cy. 160).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer trosglwyddo eiddo o'r enw Ysbyty Abergele oddi wrth Weinidogion Cymru i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru o 16 Medi 2008 ymlaen.